

Ymgysylltu digidol, hanesion heriol: Theori ac ymarfer

Dr James Stark: Cymrawd Academaidd y Brifysgol yn y Dyniaethau Meddygol/Cymrawd Arweinyddiaeth Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Leeds

Mae datblygiadau diweddar ym maes offer ymgysylltu digidol wedi creu amgylchedd grymus ar gyfer ail-ddehongli treftadaeth. O ymchwil hanesyddol mynediad agored i gasgliadau wedi'u digido amgueddfeydd ac archifdai, erbyn hyn mae gan ymchwilwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau treftadaeth doreth o adnoddau gwreiddiol, a oedd yn anodd eu cyrraedd gynt, y gallant eu cyrchu drwy wefannau, catalogau a safleoedd trydydd parti. Un newydd-ddyfodiad i'r farchnad brysur hon yw Yarn, llwyfan adrodd storïau digidol sy'n dwyn ynghyd gasgliadau amgueddfeydd ac archifdai ac archifau a deunyddiau hanesyddol y defnyddwyr eu hunain.



Bydd y papur hwn yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio offer fel Yarn i aildehongli gwrthrychau hanesyddol yn ymwneud â meddygaeth ac anabledd. Mae'r rhain yn aml yn ddadleuol a chymhleth gan eu bod yn gysylltiedig ag afiechydon, cyflyrau a thriniaethau sy'n gallu peri gofid i gynulleidfaoedd. Gall yr hanesion sydd ynghlwm wrth y gwrthrychau a thestunau hyn fod yr un mor flinderus ac ysgytiol gan eu bod yn aml yn gysylltiedig ag achosion dybryd o golled ac anaf. Sut bynnag, mae ganddynt hefyd botensial ar gyfer cyflwyno llawer o naratifau amgen i gynrychioli'n well brofiadau anabledd, afiechyd ac iechyd. Mae gwneud y casgliadau hyn yn fwy hygyrch drwy ddefnydd creadigol o offer digidol yn caniatáu i ni hwyluso creu naratifau amgen sy'n dwyn ynghyd brofiadau a chasgliadau personol, gan symud y tu hwnt i naratifau llinol â ffocws tynn mewn arddangosiadau ffisegol.

Drwy dynnu sylw at heriau a chyfleoedd defnyddio adnoddau fel hyn yng nghyd-destun hanes meddygaeth ac anabledd, rwyf yn dadlau y gallwn daflu goleuni newydd ar gasgliadau sydd fel arall yn anhygyrch a gwneud y broses guraduro yn fwy democrataidd ac agored.

